# CYNNWYS


**1. Cyflwyniad......1**
1.1 Cefndir......1
1.2 Daearyddiaeth Cyngor Gwynedd......2
1.3 Y Broses Ymgynghori......2
**2. Sgôp a Graddau......3**
**3. Amcanion Trwyddedu......5**
3.1 Amcan 1: Atal Hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell Trosedd ac Anhrefn......6
3.2 Amcan 2: Sicrhau bod Hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd Deg ac Agored......7
3.3 Amcan 3: Amddiffyn Plant a Phobl Fregus eraill......8
**4. Deddfwriaeth a Pholisïau......9**
4.1 Deddfwriaeth......9
4.2 Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu......10
**5. Dirprwyo, y Pwyllgor Trwyddedu a Gwneud Penderfyniadau......11**
5.1 Dirprwyo......11
5.2 Y Pwyllgor Trwyddedu......12
5.3 Gwneud Penderfyniadau......13
**6. Egwyddorion Cyffredinol......14**
6.1 Awdurdod Cymwys ar gyfer amddiffyn plant rhag niwed......14
6.2 Partïon â Diddordeb......15
6.3 Cyfnewid Gwybodaeth......15
6.4 Archwilio a Chamau Troseddol......16
**7. Y Broses Drwyddedu......18**
7.1 Ceisiadau......18
7.2 Cyflafareddu......19
7.3 Amodau......20
7.4 Adolygiadau......21
**8. Safonau Lleol......23**
8.1 Trwyddedau Eiddo......23
8.2 Rhybuddion......27
8.3 Hawlenni......28
8.4 Cofrestriadau......31
8.5 Asesiadau Risg Lleol......32
**9. Cwynion yn erbyn Eiddo Trwyddedig......33**
**10. Gwybodaeth Bellach......34**
10.1 Peiriannau Hapchwarae......34
10.2 Y Gofrestr Trwyddedu......35
10.3 Cronfa Ddata o Gofnodion Eiddo......35
**Atodiad A: Proffil Ardal Leol o Wynedd......36**
**Atodiad B: Rhestr Termau......43**
**Atodiad C: Dirprwyo Gwneud Penderfyniadau......47**
**Atodiad D: Crynodeb o Beiriannau Hapchwarae......49**

# ATODIAD A: PROFFIL ARDAL LEOL O WYNEDD

## CYFLWYNIAD

Diben y **Proffil Ardal Leol o Wynedd** yw rhoi asesiad o brif nodweddion y sir fel bod gan weithredwyr eiddo hapchwarae trwyddedig ddealltwriaeth well ac ymwybyddiaeth o Wynedd a'i risgiau.

Er nad oes gofyn statudol i awdurdodau trwyddedu baratoi proffil ardal leol, y gobaith yw y bydd y wybodaeth a ddarperir yn helpu gweithredwyr wrth baratoi eu hasesiadau risg lleol ar gyfer eiddo hapchwarae trwyddedig.

Yn y ddogfen hon ceir :

- Trosolwg o  Ardal Gwynedd;
- Nodweddion  Poblogaeth a Demograffig
- Gweithgarwch Economaidd a Phoblogaeth
- Amddifadedd a'r Economi Leol
- Tai a'r Amgylchedd Lleol
- Diwylliant, Iaith a Chymuned
- Ystyriaethau Iechyd a Bregusrwydd
- Twristiaeth a Newid Tymhorol yn y Boblogaeth
- Niwed o Hapchwarae
- Pobl Fregus yng Ngwynedd
- Eiddo Hapchwarae Trwyddedig yng Ngwynedd;
- Sefydliadau Sensitif yng Ngwynedd;

## TROSOLWG O ARDAL GWYNEDD

Mae Gwynedd yn sir yng ngogledd-orllewin Cymru, sy'n cwmpasu un o'r ardaloedd daearyddol mwyaf yng Nghymru, sef tua 2,535 km². Dyma'r ail ardal awdurdod lleol fwyaf o ran tir yng Nghymru ac mae ymhlith y rhai mwyaf prin eu poblogaeth.
Mae'r ardal yn cynnwys:

- Parc Cenedlaethol Eryri, gyda thir mynyddig yn cynnwys yr Wyddfa, y mynydd uchaf yng Nghymru.
- Llŷn ac Eifionydd, sy'n nodedig am eu harfordir prydferth a'u cymunedau gwledig.
- Nifer o aneddiadau arfordirol a chymoedd mewndirol.

Ymhlith y trefi a'r canolfannau trefol mawr mae Bangor (Dinas Bangor lle mae Prifysgol Bangor), Caernarfon, Bethesda, Blaenau Ffestiniog a Phwllheli.
Mae'r Gymraeg yn gryf yn y sir, gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (dros 64%).

## NODWEDDION POBLOGAETH A DEMOGRAFFIG

- Cyfanswm y boblogaeth: Tua 120,813 (amcangyfrif y SYG ar ganol 2024).
- Tuedd y boblogaeth: Gostyngodd y boblogaeth ychydig rhwng 2011 a 2021 ond mae wedi cynyddu 2.8% rhwng 2019 a 2024.
- Yr oedran cyfartalog yn 2024 oedd 44.

- Dwysedd: Isel iawn o'i gymharu â Chymru yn gyffredinol – 48 o bobl fesul km² (cyfartaledd yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru yw 580 o bobl y km²).

Strwythur oedran (ar ganol 2024):
- 0-15 oed: 15.7%
- 16-64 oed: 60.9%
- 65 oed a hŷn:  23.4%

**Perthnasedd i'r Polisi:**

- Gall ardaloedd â phroffiliau oedran hŷn wynebu bregusrwydd cymdeithasol amlwg (e.e. unigedd, mynediad cyfyngedig at wasanaethau).
- Mae grwpiau ieuenctid ac oedran gweithio yn parhau i fod yn sylweddol, yn enwedig o amgylch Bangor (canolfan addysg a chyflogaeth)

## GWEITHGARWCH ECONOMAIDD A CHYFLOGAETH

Cyflogaeth a'r farchnad lafur:
- Cyfradd cyflogaeth: 74.6% (16-64 oed).
- Cyfradd diweithdra: 3.5%, ychydig yn is na Chymru yn gyffredinol.
- Mae anweithgarwch economaidd ychydig yn uwch na'r lefelau cenedlaethol, sy'n adlewyrchu ymddeoliad, cyfrifoldebau gofal, neu salwch hirdymor.

Diwydiant a'r economi:
- Mae'r prif sectorau cyflogaeth yn cynnwys iechyd a gwaith cymdeithasol ochr yn ochr â thwristiaeth, manwerthu ac addysg (mae 28% o'r gweithlu yn gweithio ym maes Addysg ac Iechyd).
- Mae cyflog canolrifol cyfartalog ar gyfer gweithwyr llawn amser yn is na sawl rhan o Gymru a'r DU.

**Perthnasedd i'r Polisi:**

- Gall anweithgarwch economaidd a lefelau incwm is arwain at gynnydd mewn anawsterau ariannol a bod yn agored i gamblo problemus.
- Gall cyflogaeth sy'n gysylltiedig â sectorau tymhorol a thwristiaeth greu pwysau ychwanegol ac ansefydlogrwydd ariannol.

## AMDDIFADEDD A'R ECONOMI LEOL

Er nad oes gan Wynedd amddifadedd difrifol eang, mae yna ardaloedd o fewn y degradd mwyaf difreintiedig ar gyfer rhai dangosyddion fel iechyd a diogelwch cymunedol.

Mae rhai heriau economaidd lleol yn cynnwys:

- Bwlch rhwng perfformiad economaidd lleol ac economi ehangach Cymru/y DU.
- Incwm cyfartalog is a mwy o waith rhan amser neu dymhorol.
- 24.6% o blant yn byw mewn tlodi cymharol, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 18.9% (SYG, 2024).

**Perthnasedd i'r Polisi:**

- Mae amddifadedd a heriau economaidd yn ffactorau risg cydnabyddedig ar gyfer niwed o gamblo ac anawsterau ariannol.

## TAI A'R AMGYLCHEDD LLEOL

- Mae prisiau tai cyfartalog yng Ngwynedd yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Lloegr ond gallant fod yn uchel o'i gymharu ag incwm lleol gyda rhywfaint o dystiolaeth o bobl ifanc yn symud o'r ardal oherwydd argaeledd tai/fforddiadwyedd.

- Mae Gwynedd hefyd wedi gweld polisi yn canolbwyntio ar ail gartrefi a llety gwyliau, gan dynnu sylw at faterion fforddiadwyedd tai a all effeithio ar gydlyniant cymunedol a gwytnwch economaidd.

## DIWYLLIANT , IAITH A CHYMUNED

Mae Gwynedd yn gadarnle diwylliannol i'r iaith Gymraeg a'r dreftadaeth Gymreig:

- Mae ymhlith y cyfrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru yn byw yma (dros 64% o'r boblogaeth 3+ oed).
- Mae addysg ddwyieithog a bywyd cymunedol yn nodweddion amlwg.

**Perthnasedd i'r Polisi:**

- Gall hunaniaeth ddiwylliannol a rhwydweithiau cymunedol weithredu fel ffactorau amddiffynnol a ffactorau bregusrwydd wrth ddeall ymddygiadau gan gynnwys patrymau gamblo.

## YSTYRIAETHAU IECHYD A BREGUSRWYDD

- Poblogaeth sy'n heneiddio: Mae poblogaeth Gwynedd yn heneiddio'n gyflymach na llawer o ardaloedd, gyda chyfran nodedig o oedolion hŷn.
- Unigedd gwledig: Mae rhannau gwledig o'r sir yn wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â thrafnidiaeth a mynediad at wasanaethau.

**Perthnasedd i'r Polisi:**

- Gall heneiddio, unigedd cymdeithasol, a mynediad cyfyngedig at wasanaethau iechyd a chymorth gynyddu'r risg o niwed o gamblo, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.
- Mae gweithgarwch gamblo hefyd wedi'i gysylltu â sawl mater megis achosion uwch o ddefnyddio sylweddau (Cowlishaw, Merkouris, Chapman & Radermacher, 2014), mwy o debygolrwydd o gyflawni trais domestig (Afifi, Brownridge, MacMillan & Sareen, 2010. Dowling et al., 2016), mwy o risg o ddigartrefedd (Lipmann, Mirabelli & Rota-Bartelink, 2004. Holdsworth & Tiyce, 2012), ac anhwylderau seicolegol, yn benodol gorbryder ac iselder (Suomi, Dowling & Jackson, 2014).

## TWRISTIAETH A NEWID TYMHOROL YN Y BOBLOGAETH

Mae twristiaeth yn elfen economaidd allweddol:

- Mae Eryri ac ardaloedd arfordirol yn denu ymwelwyr tymhorol.
- Mae Bangor yn cynnal poblogaethau myfyrwyr ac ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn.

**Perthnasedd i'r Polisi:**

- Gall mewnlifiadau tymhorol a gweithgarwch economi nos (yn enwedig o amgylch Bangor a threfi arfordirol) ddylanwadu ar batrymau cyfranogiad gamblo.

## NIWED O HAPCHWARAE

- Niwed o gamblo yw effeithiau negyddol gamblo ar iechyd a lles unigolion, teuluoedd, cymunedau a chymdeithas, yn y tymor byr a'r tymor hir.

- Mae amcangyfrif faint o bobl sy'n cael eu heffeithio gan gamblo a maint y niwed hwn yn anodd. Canfu adroddiad yn 2019 gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Abertawe fod 3% o oedolion Cymru yn gamblwyr "mewn perygl" ac 1% yn gamblwyr "problemus". Ymhlith y grwpiau mwyaf tebygol o brofi niwed o gamblo mae'r rhai sydd eisoes yn wynebu anghydraddoldebau cymdeithasol neu economaidd, megis pobl sy'n ddi-waith, ar incwm isel, o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol, neu sydd â phroblemau iechyd meddwl.

- Mae gwaith ymchwil hefyd yn dangos bod pobl sy'n cael eu niweidio gan gamblo yn aml yn wynebu problemau iechyd a chymdeithasol eraill. Er enghraifft, mae gan bron i 6 o bob 10 anhwylder camddefnyddio sylweddau, mae tua 1 o bob 3 yn dioddef trais domestig, ac mae gan fwy na thraean gyflwr iechyd meddwl.

- Cymru sydd â'r lefel uchaf o gamblo problemus yn y DU. Mae data diweddar yn dangos bod 63% o oedolion wedi gamblo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda loterïau a chardiau crafu y ffurfiau mwyaf cyffredin. Dangosodd tua 10% o gamblwyr ryw lefel o risg ar y Mynegai Difrifoldeb Gamblo Problemus.

- Ymhlith pobl ifanc, dywedodd 12% o bobl ifanc 11–16 oed yng ngogledd Cymru eu bod wedi gwario eu harian eu hunain ar gamblo yn ystod yr wythnos ddiwethaf, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru a'r ail gyfradd uchaf yn y wlad.

## POBL FREGUS YNG NGWYNEDD

- Un o amcanion Deddf Hapchwarae 2005, yw amddiffyn plant a phobl fregus eraill rhag cael eu niweidio neu'u hecsbloetio gan hapchwarae.


- Mae'n anghyfreithlon i weithredwyr ganiatáu i blant a phobl ifanc o dan 18 oed chwarae gemau penodol â chyfyngiad oedran arnynt, i osod bet, neu gael mynediad i gasinos, i eiddo betio, i ganolfannau hapchwarae i oedolion ac i fannau gwaharddedig mewn llefydd Bingo, Traciau a chanolfannau adloniant teulu.

- Mae'r Comisiwn Hapchwarae'n cyfeirio at bobl fregus fel pobl a allent hapchwarae mwy nag y maent eisiau; pobl sy'n hapchwarae mwy nag y medrent ei fforddio; a phobl nad sydd efallai'n medru gwneud penderfyniadau deallus neu gytbwys ynglŷn â hapchwarae oherwydd anghenion iechyd meddwl, anabledd dysgu neu gamddefnyddio sylwedd yn gysylltiedig ag alcohol neu gyffuriau.


## EIDDO HAPCHWARAE TRWYDDEDIG YNG NGWYNEDD

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn rheoli gweithgareddau hapchwarae mewn 254 eiddo. O'r rhain, mae gan 30 drwydded eiddo ar gyfer hapchwarae ac mae 224 eiddo wedi'i awdurdodi i ganiatáu hapchwarae trwy hawlen.

**Ffigwr 1 - Graff o'r 30 Eiddo Hapchwarae Trwyddedig yng Ngwynedd**




**Ffigwr 2 - Graff o'r 224 Hawlen Hapchwarae yng Ngwynedd**




Mae'r rhan fwyaf o'r eiddo hapchwarae mewn clystyrau yn yr ardaloedd mwy poblog o'r sir, ac ym mhrif ardaloedd twristiaeth, arfordirol y sir.

Adlewyrchir hyn yn y nifer o Ganolfannau Adloniant Teulu a Chanolfannau Hapchwarae i Oedolion ledled yr ardaloedd arfordirol a thwristaidd yn y sir.

## SEFYDLIADAU SENSITIF YNG NGWYNEDD

Mae agosrwydd eiddo hapchwarae at sefydliadau sensitif megis ysgolion, canolfannau oedolion bregus, neu at ardaloedd preswyl gyda nifer fawr o deuluoedd â phlant yn ffactor a ddylai gael ei ystyried gan weithredwyr wrth fynd i'r afael â'u hasesiadau risg lleol.

**Ysgolion Uwchradd**

| Ardal | Ysgol | Grŵp Oedran |
|---|---|---|
| Arfon | Ysgol Brynrefail, Ffordd Crawia, Llanrug, Gwynedd, LL55 4AD | (11 - 18) |
| Arfon | Ysgol Dyffryn Nantlle, Ffordd Y Brenin, Penygroes, Gwynedd, LL54 6RL | (11 - 18) |
| Arfon | Ysgol Dyffryn Ogwen, Ffordd Coetmor, Bethesda, Gwynedd, LL57 3NN | (11 - 18) |
| Arfon | Ysgol Friars, Lôn Y Bryn, Bangor, Gwynedd, LL57 2LN | (11 - 18) |
| Arfon | Ysgol Syr Hugh Owen, Ffordd Bethel, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1HW | (11 - 18) |
| Arfon | Ysgol Tryfan, Lôn Powys, Bangor, Gwynedd, LL57 2TY | (11 - 18) |
| Dwyfor | Ysgol Ardudwy, Ffordd Glan Môr, Harlech, Gwynedd, LL46 2UH | (11 - 16) |
| Dwyfor | Ysgol Botwnnog, Botwnnog, Gwynedd, LL53 8PY | (11 - 16) |
| Dwyfor | Ysgol Eifionydd, Ffordd Tremadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HS | (11 - 16) |
| Dwyfor | Ysgol Glan-y-Môr, Ffordd Caerdydd, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5NU | (11 - 16) |
| Meirionnydd | Ysgol Uwchradd Tywyn, Station Road, Tywyn, Gwynedd, LL36 9EU | (11 - 16) |
| Meirionnydd | Ysgol y Berwyn, Heol Ffrydan, Y Bala, Gwynedd, LL23 7RU | (11 - 18) |
| Meirionnydd | Ysgol y Gader, Ffordd Pont Yr Aran, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1HY | (11 - 16) |
| Meirionnydd | Ysgol y Moelwyn, Ffordd Wynne, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd, LL41 3DW | (11 - 16) |

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd yn rheoli gweithgareddau hapchwarae 254 eiddo. O'r cyfanswm hwn, mae gan 30 drwydded eiddo ar gyfer hapchwarae ac mae 224 eiddo wedi'i awdurdodi i ganiatáu hapchwarae

